Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Bargod**

**Cartref Gofal Bargod**
**Heol Fargoed**
**Bargod**
**CF81 8PQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

**24 Chwefror 2022**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chartref Gofal Bargoed

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion gyda gofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Omnia Care Home Group Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 45 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers i ddarparwr newydd brynu'r gwasanaeth ym mis Tachwedd 2020, a'r cyntaf ar gyfer y darparwr newydd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae gan Gartref Gofal Bargod dîm rheoli ymroddedig, a gefnogir gan unigolyn cyfrifol enwebedig y darparwr. Mae'r oruchwyliaeth yn drylwyr ac mae systemau'n effeithiol er mwyn cynnal gwasanaeth o safon.

Darperir gofal gan niferoedd addas o nyrsys a gweithwyr gofal cymwys. Mae pobl yn hapus gyda'r gofal a ddarperir a'r staff gofal. Mae dogfennaeth dda a chyfathrebu rhagorol yn sail i gynllunio a darparu gofal. Mae'r holl staff yn cynnig cymorth caredig ac yn trin pawb gyda pharch.

Mae'r amgylchedd yn briodol ar gyfer anghenion pobl, yn olau, yn gynnes ac yn groesawgar. Mae rhywfaint o ailaddurno'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Mae archwilio, cynnal a chadw a phrofi'r amgylchedd ac offer o safon uchel.

## Llesiant

Mae gwybodaeth ar gael i bobl fel y gallant ddeall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael ar eu cyfer. Cynigir dewisiadau i bobl ac maent yn cael eu hannog i wneud eu penderfyniadau eu hunain megis beth i'w fwyta a phwy sydd i'w cynrychioli. Mae rhai pobl yn dewis siarad Cymraeg ac yn cael eu cefnogi gyda hyn. Mae cyfarfodydd, adolygiadau o gynlluniau gofal, arolygon a thrafodaethau gyda'r rheolwyr neu'r unigolyn cyfrifol yn yn ei gwneud yn bosibl i bobl ddweud eu dweud. Mae gan bobl sy'n ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau gynrychiolaeth i helpu gyda hyn.

Cyflawnir canlyniadau da i bobl ynghylch iechyd corfforol a meddyliol. Mae cynlluniau gofal yn llywio sut mae angen cefnogi pobl, pwy ddylai fod ynghlwm, a sut orau i ddarparu gofal er mwyn cyflawni nodau a nodwyd. Mae gan bobl y mae anghenion nyrsio wedi'u nodi iddynt nyrsys rheolaidd sy'n eu hadnabod yn dda ac yn monitro eu hiechyd. Mae staff gofal yn cefnogi'r holl breswylwyr ac yn helpu i ddarparu gofal urddasol. Mae cydlynwyr gweithgareddau yn hybu iechyd meddwl pobl drwy ddarparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol. Cefnogir cadw cysylltiad â'r teulu. Mae gan bobl eu hystafelloedd eu hunain gydag eitemau o'u cwmpas y maent yn eu hystyried yn bwysig. Darperir ar gyfer pob diet er mwyn helpu pobl i gynnal pwysau iach; caiff hyn ei fonitro a gweithredir ar unrhyw bryderon. Mae gweithwyr iechyd proffesiynol fel ciropodyddion ac optegwyr yn ymweld â'r cartref.

Mae'r staff yn garedig, gofalgar ac yn trin pobl gyda pharch. Mae pobl yn teimlo'n ddiogel, a phan ofynnwyd iddynt beth fyddent yn ei wneud pe na baent yn teimlo'n ddiogel, dywedon nhw wrthym, *"Gallaf bob amser ofyn i aelod o staff os wy'n poeni."* Mae pobl yn cael eu cefnogi i gyfleu eu dymuniadau a'u teimladau hyd yn oed os na allant siarad. Mae'r amgylchedd a'r offer yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel er mwyn cynnal diogelwch pobl. Mae addasrwydd staff i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed yn cael ei wirio ac maent yn derbyn hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl. Mae gweithdrefnau ar gyfer mynegi pryderon a chwyno yn eu lle. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r tîm rheoli yn monitro gofal yn fanwl er mwyn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.

## Gofal a Chymorth

Mae pobl yn cael gofal a chymorth gan weithwyr gofal a nyrsys sy'n eu hadnabod yn dda. Mae hyn yn cael ei fonitro'n fanwl drwy'r dirprwy a'r rheolwr sy'n canolbwyntio ar atal problemau drwy sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn. Mae pobl yn dweud wrthym “maen nhw’n edrych ar ein holau ni’ndda”, ac mae eu teuluoedd yn dweud wrthym nad oes ganddyny unrhyw bryderon a'u bod yn cael gwybod am y gofal ac unrhyw newidiadau. Mae gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd urddasol, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg os mai dyna yw dewis yr unigolyn. Rhoddir cymorth tawel i bobl, rhoddir amser iddynt, a chânt eu hannog i barhau i fod mor annibynol â phosibl. Mae dewisiadau bob amser yn cael eu cynnig. Gwelsom gymorth priodol i'r rheiny a oedd angen cymorth i fwyta ac yfed. Mae cofnodion dyddiol yn dangos bod gofal yn cael ei ddarparu yn unol â chynlluniau gofal y cytunwyd arnynt. Mae cofnodion pwysau, gofal personol, lleddfu pwysau a meddyginiaeth yn cael eu dadansoddi fel rhan o adolygiadau. Ymgynghorir ag unigolion neu eu cynrychiolydd teulu ynghylch yr adolygiad a, phan fo angen, mae gweithwyr proffesiynol yn cael eu cynnwys er mwyn cefnogi newidiadau. Mae pobl sy'n ei chael hi'n anodd gwneud penderfyniadau yn cael eu hatgyfeirio er mwyn cael cymorth priodol.

Mae cynlluniau personol ar waith ac maent yn darparu dogfennaeth i gefnogi staff gofal i wybod am yr unigolyn a'i anghenion gofal. Mae’r rhain yn glir ac yn adlewyrchu dymuniadau’r unigolyn, gan gynnwys y rhai sy’n ymwneud â diwedd oes. Datblygir y cynlluniau gofal ar sail asesiadau manwl, yn ogystal ag ar ystyriaeth o wybodaeth ychwanegol gan weithwyr cymdeithasol, y teulu a'r unigolyn ei hun. Mae asesiad risg yn ei le i gefnogi annibyniaeth a darpariaeth gofal.

Cynigir gweithgareddau grŵp, yn ogystal â sesiynau un i un unigol. Gwelsom bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, ond gwelsom hefyd y cymorth a roddir er mwyn i bobl allu dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae pobl yn cael eu cynorthwyo i sicrhau bod eu hoffer electronig wedi'u gwefru ac ar gael i'w defnyddio. Mae rhai bylchau yn y cofnodion o weithgareddau, ond mae hyn oherwydd bod y rheolwr yn blaenoriaethu darparu gofal yn ystod achosion o COVID-19. Mae cydlynwyr gweithgareddau sydd wedi'u hyfforddi'n addas yn cynorthwyo â’r gwaith o ddarparu gofal pan fo angen.

Darperir bwyd a goginiwyd gartref, ac mae pobl yn dweud wrthym eu bod yn mwynhau'r cawl a goginiwyd gartref amser te yn fawr. Darperir ar gyfer anghenion deietegol ac mae'r cogydd wedi'i hyfforddi ac yn wybodus am weadau bwyd ac alergeddau. Mae deietegwyr yn rhoi gwybod am ddeietau priodol ar gyfer pobl sy'n cael anhawster llyncu ac sydd mewn perygl o dagu. Caiff hyn ei fonitro'n ofalus gan reolwyr ac mae dangosyddion megis pwysau’n cael eu hystyried. Gwelsom arferion bwyta da, gan gynnwys pobl yn cael eu cefnogi i olchi eu dwylo cyn y pryd bwyd.

Mae dulliau rheoli meddyginiaeth yn dda iawn. Mae'r dirprwy reolwr yn goruchwylio hyn ac yn dangos rheolaeth ragorol, o archebu i reoli stoc a gweinyddu prosesau archwilio. Mae’r cofnodion sy’n ofynnol ynghylch pob agwedd ar feddyginiaeth, gan gynnwys yr hyn a roddir ‘pan fo angen’, yn gywir. Mae archwiliadau'n codi unrhyw fân faterion , ac eir i’r afael â nhw ar unwaith.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref wedi'i gynllunio'n dda gyda choridorau lletach a digon o le i gadeiriau olwyn symud yn hawdd. Mae ardaloedd cymunedol yn darparu cyfleoedd i gymdeithasu a chiniawa gydag eraill. Mae mannau storio yn ddiogel, ond mae'r darparwr yn ystyried sut i gynyddu'r gofod storio oherwydd swm y deunyddiau y mae angen iddynt eu cadw ar hyn o bryd. Mae'r darparwr gwasanaeth hefyd wedi nodi'r angen i ailaddurno er mwyn mynd i'r afael â nifer o farciau ar waith paent; mae’r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Ymgynghorir â phobl ynghylch yr addurniadau. Mae pob ardal yn gynnes ac wedi'i goleuo'n dda. Mae ystafelloedd gwely wedi'u personoli gyda lluniau ac addurniadau o ddewis, sy’n aml yn dathlu cysylltiadau teuluol neu gyflawniadau personol. Mae blychau cofion sy’n llawn o luniau a gwrthrychau sy'n berthnasol i'r unigolyn yn cael eu cadw ar y wal y tu allan i ddrysau'r ystafelloedd gwely. Mae'r rhain yn helpu unigolion i nodi eu hystafelloedd gwely, ond maent hefyd yn darparu ffocws ar gyfer trafodaethau, gan gefnogi safon dda o ryngweithio rhwng pobl a'u gweithwyr gofal.

Mae atal a rheoli heintiau yn cael ei gymryd o ddifrif a darperir digon o adnoddau i gefnogi staff i ddilyn y canllawiau cyfredol. Mae man ymweld, y cyfeirir ato fel pod, wedi'i sefydlu o fewn y gwasanaeth i gefnogi teuluoedd i weld anwyliaid yn ystod y pandemig presennol. Mae ymweliadau hefyd yn digwydd yn y dderbynfa. Mae'r rheolwr yn cadarnhau y bydd ymweliadau ag ystafelloedd gwely yn dechrau bellach, yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, ond byddant yn unol â mesurau atal heintiau a bennwyd gan awdurdodau iechyd ac amgylcheddol.

Mae systemau effeithiol ar waith ar gyfer goruchwylio'r amgylchedd. Cynhelir archwiliadau rheolaidd. Mae offer a gwasanaethau, megis nwy a thrydan, yn cael eu cynnal a'u cadw a'u profi'n rheolaidd. Mae asesiad risg tân, offer tân a gweithdrefnau tân yn eu lle er mwyn gadw pobl yn ddiogel a chefnogi staff i wybod sut i wacáu'r adeilad mewn argyfwng. Gwneir gwaith cynnal a chadw arferol. Mae'r gegin yn bodloni gofynion iechyd yr amgylchedd.

Mae'r offer yn addas ar gyfer anghenion pobl, gan gynnwys y bobl hynny y mae angen gofal nyrsio mwy arbenigol arnynt. Gwelsom weithwyr gofal yn defnyddio offer yn briodol ac yn hyderus, gan gynnwys yr hyn a ddefnyddir i gynnal pobl wrth gael eu symud. Mae'r offer yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

Mae'r gofod y tu allan yn gyfyngedig ac nid oedd yn cael ei ddefnyddio ar ddiwrnod yr arolygiad oherwydd y tywydd a'r adeg o'r flwyddyn. Mae'r patio yn hygyrch ac mae'r tir o gwmpas yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n gyffredinol er mwyn lleihau risgiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae Cartref Gofal Bargod wedi'i gofrestru o dan ddarparwr newydd ers mis Tachwedd 2020. Mae'r darparwr wedi enwebu unigolyn cyfrifol sy'n dangos fod ganddo oruchwyliaeth dros y gwasanaeth. Mae’n ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn ymgynghori â phobl er mwyn profi ansawdd y gofal a ddarperir. Llunnir adroddiadau i brofi bod y canfyddiadau'n cael eu hystyried a'u defnyddio er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth. Mae polisïau yn eu lle, ac maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a chyfarwyddiadau i staff gofal ar y ffordd orau o wneud eu gwaith. Mae dogfennau, yn cynnwys ‘datganiad o ddiben’ a ‘chanllaw defnyddiwr gwasanaeth’ , ar gael i hysbysu pobl am yr hyn y mae’r gwasanaeth yn ei gynnig. Mae rheolwr wedi’i benodi er mwyn cefnogi’r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r rheolwr, a'r tîm staff yn ehangach, yn canmol yr unigolyn cyfrifol a’r cymorth a ddarperir ganddo, yn ogystal â'r adnoddau a ddarperir i sicrhau y gallant ddarparu gwasanaeth o ansawdd.

Mae tîm rheoli effeithlon, trefnus yn dangos arweinyddiaeth gref, gan osod safonau uchel ym mhob agwedd ar gyflwyno gwasanaeth. Mae cyfathrebu ac ymgynghori rhagorol yn cefnogi'r holl staff i gyflawni eu rôl. Mae cyfarfodydd ar lefelau amrywiol yn sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei chyflwyno yn brydlon. Mae nyrsys yn elwa ar arweinyddiaeth glinigol a sesiynau goruchwylio. Mae'r holl staff yn elwa ar gyfarfodydd goruchwylio gyda rheolwyr llinell pan allant adolygu eu datblygiad proffesiynol a thrafod unrhyw faterion. Mae llawer o staff wedi'u hyfforddi i gyflawni rolau gwahanol o fewn y sefydliad er mwyn darparu hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth. Mae'r rheolwr a'r dirprwy reolwr yn uchel eu parch gan y tîm staff, sy'n cydnabod yr ymroddiad a ddangosant, a'r safonau sydd wedi’u cyflawni. Mae'r tîm staff, comisiynwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yn cydnabod bod y darparwr a'r rheolwyr wedi gweddnewid y cartref.

Mae'r ffeiliau personél a welwyd yn dangos bod y gwasanaeth yn recriwtio staff mewn modd diogel ac yn darparu hyfforddiant cynefino a hyfforddiant parhaus addas. Cedwir yr holl gofnodion angenrheidiol am staff yn ddiogel. Cynhelir sesiynau goruchwyliaeth, gwerthusiadau a gwiriadau cymhwysedd er mwyn cefnogi staff a sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n briodol. Darperir hyfforddiant i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, gan gynnwys meddyginiaeth, mwy o hyfforddiant clinigol ynghylch atal mannau pwyso, a sut i gadw pobl sy’n agored i niwed yn ddiogel. Dywedodd gweithwyr gofal a nyrsys wrthym eu bod yn cael digon o hyfforddiant ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Cymerir camau cadarn i sicrhau bod gweithdrefnau’n briodol yn y cartref. Ymgynghorir â gweithwyr proffesiynol allanol ynghylch systemau, gan gynnwys meddyginiaeth, er mwyn cynnal arferion da. Ymgynghorir ag aseswyr nyrsio’r bwrdd iechyd lleol er mwyn helpu i wella systemau ar gyfer cofnodi a monitro gofal. Mae gan yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwr

wybodaeth glir am ofynion rheoliadol, ac maent yn gweithio o fewn y rhain, gan gefnogi staff i ddeall a dilyn gweithdrefnau.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 19 Mai 2022